

**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd
Dydd Mercher 18 Medi 2019 10:30 – 13:30
Shelter Cymru, Abertawe**

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Jon Sparkes	Prif Weithredwr Crisis (Cadeirydd)
Katie Dalton	Cyfarwyddwr Cymorth Cymru
Peter Mackie	Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLILC
Clare Budden	Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Tamsin Stirling	Arbenigwr Tai Llawrydd
Frances Beecher	Prif Weithredwr Llamau
John Puzey	Prif Weithredwr Shelter Cymru
Bonnie Navarra	Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol
Glynne Roberts	Rheolwr Rhaglenni BIP Betsi Cadwaladr
Gaynor Toft	Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Sir Ceredigion
Siân Aldridge	The Wallich (yn cynrychioli Lindsay Cordery-Bruce)
Nick Morris	Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Crisis
Emma Williams	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru
Sarah Rhodes	Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru
Mark Price	Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru
Sara Faye	Cynghorydd Arbennig y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Ymddiheuriadau:

Lindsay Cordery-Bruce	Prif Weithredwr The Wallich
Clarissa Corbisiero	Cyfarwyddwr Polisi Cartrefi Cymunedol Cymru

Croesawodd JS bawb i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Dechreuodd y cyfarfod drwy gael diweddariad gan Rebecca Jackson, Shelter, a fu'n bresennol yn y rhan gyntaf o'r cyfarfod (yn unig) er mwyn rhoi'r diweddaraaf ar yr arolwg ar-lein o brofiad uniongyrchol. Nododd y canlynol:

- Mae'r arolwg ar-lein wedi cael ei lansio eisoes ac mae'r gwaith maes wedi'i dargedu wedi dechrau (yng Nghaerdydd) gyda mwy i ddilyn ledled Cymru.

- Cafwyd 131 o ymatebion hyd yma, y mae 63% ohonynt wedi cael profiad o ddigartrefedd ac o'r rhain mae 36% wedi cael profiad o ddigartrefedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Dim ond 13% o'r ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt byth yn poeni am eu sefyllfa o ran cael cartref (h.y. y posibilrwydd o fynd yn ddigartref).
- Mae'r arolwg yn cynnwys rhestr o ffyrdd o fynd i'r afael â digartrefedd ac yn gofyn i bobl eu gosod yn nhrefn eu blaenoriaeth. Mae'r mwyafrif o bobl hyd yma wedi dewis "darparu llety a all gael ei ddefnyddio gan unrhyw un mewn argyfwng heb unrhyw rwystrau" fel eu blaenoriaeth gyntaf. Yr ail ddewis yw "cysylltiadau personol" ar y cyfan, gyda "cyllidebau personol" fel yr opsiwn olaf/safle isaf.
- Mewn ymateb i'r ddwy adran arall yn yr arolwg cafwyd sylwadau gan gynnwys: yr angen i ehangu opsiynau Ailgartrefu'n Gyflym; gwella/rhoi hyfforddiant ychwanegol; sylwadau am ansawdd llety dros dro a faint o amser a dreulir ynddo; a gwella ansawdd tai a'r cyflenwad yn gyffredinol, gan gynnwys y sector rhentu preifat, er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.
- Yn ystod y cam nesaf o'r gwaith hwn caiff ystadegau ar ddigartrefedd eu defnyddio i ddarparu fframwaith cynrychioliadol a datblygu rhestr o ddigwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu ynglŷn â phrofiad uniongyrchol y gellir ei defnyddio i gynnal gweithdai a hefyd gynnal cyfweiliadau un i un â'r rhai sy'n dod ac sy'n fodlon cael eu cyfweld.
- Caiff y data sy'n cael eu casglu o'r ffrwd waith hon eu dwyn ynghyd â'r holl dystiolaeth arall o'r gwaith a wneir yng Nghymru a byddant yn nodi unrhyw fylchau o ran dealltwriaeth.
- Bydd cipolwg wythnosol ar yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym, gan roi cyfle wedyn i eistedd lawr gyda phobl benodol i ddeall eu hanghenion yn well.

Cynigiodd aelodau o'r Grŵp roi cymorth i Rebecca er mwyn i'r gweithgarwch ar brofiad uniongyrchol allu cyrraedd mwy o bobl, yn enwedig yn y gogledd. Bydd aelodau yn cysylltu â Rebecca yn uniongyrchol i wneud trefniadau. Cytunodd Rebecca hefyd i ddsbarthu'r cipolwg wythnosol diweddaraf i'r Grŵp.

Yna, rhoddodd NM y diweddaraf i'r Grŵp ar arolwg ar wahân sy'n cael ei gynnal i gael adborth gan weithwyr proffesiynol yn y sector tai a'r sector digartrefedd, a bydd yn anfon dolen i'r arolwg at y Grŵp. Nododd mai nod yr arolwg hwn yw cofnodi pryderon ynglŷn â materion o ddydd i ddydd, h.y. hyfforddiant, a bydd yr arolwg yn para tan fis Hydref. Caiff themâu allweddol eu nodi o ganlyniadau'r arolwg a gellir eu defnyddio i redeg gweithdai mewn digwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu er mwyn cael rhagor o adborth. Caiff calendr o ddigwyddiadau a chyfarfodydd ei lunio at y diben hwn.

Yna, rhannwyd y Grŵp yn dri is-grŵp a gofynnwyd iddynt adolygu'r drafft cyntaf o'r adroddiad "Lleihau Cysgu Allan yn y Tymor Byr lawn" ac ystyried dau gwestiwn

penodol. Yn gyntaf, beth rydym am ei gadw/ychwanegu/colli/golygu ar gyfer pob argymhelliad. Ac yn ail, ystyriaeth o “sut” a “beth” y mae angen inni ei wneud er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith, pwy sydd angen gwneud beth, beth yw'r camau penodol a pha broblemau a all godi.

Daeth y Grŵp yn ôl at ei gilydd am y rhan olaf o'r cyfarfod a diolchodd JS i bawb am eu cyfraniad a'u sylwadau a nododd y caiff y rhain eu defnyddio i ddiweddarau'r adroddiad.

Yna, caiff yr adroddiad ei ddsbarthu i Aelodau'r Grŵp cyn y cyfarfod nesaf (9 Hydref) er mwyn cytuno arno a'i gymeradwyo i bob diben, gyda'r bwriad o gyflwyno'r adroddiad i'r Gweinidog ar 8 Hydref. Yna, caiff penderfyniad ei wneud ynghylch pryd y dylid cyhoeddi'r adroddiad.

Cafodd y Grŵp ei atgoffa gan JS fod hwn yn un o bedwar adroddiad a gaiff ei baratoi rhwng nawr a chyfarfod olaf y Grŵp (mis Mawrth nesaf).

Mark Price
Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru